YSGOL PANT PASTYNOG

**Polisi Gwrth-Fwlio**

**Pennaeth:** Mr Meirion Edwards

**Enw'r staff â chyfrifoldeb penodol – Meirion Edwards (Pennaeth)**

**Swyddog Lles yr ysgol – Miss Elin Jones**

**Enw'r Llywodraethwr â chyfrifoldeb penodol – Meryl Pierce**

## ARWEINIAD GWRTH FWLIO

Fel rhan o raglen datblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion y mae ymdrin â'r mater hwn yn annatod. Y mae'r modd y mae'r disgyblion yn cydweithio â'i gilydd yn fater y dylid ei ystyried o ddiwrnod cyntaf eu gyrfa yn yr ysgol gynradd. Gosodir y sylfaeni yn rhaglen datblygiad cymdeithasol y plentyn yn y Cyfnod Sylfaen a datblygir yr agwedd hon ar bob cyfle posibl yng Nghyfnodau Allweddol 2. Y mae codi ymwybyddiaeth plentyn o beryglon bwlio yn rhywbeth a gyfyd yn y gwersi Addysg Grefyddol, yn draws-gwrwcwlaidd yng ngweithgardddau'r dosbarth, yn y Gwasanaethau Boreol a hefyd yn y Cwricwlwm.

Manteisir ar bob cyfle i ddiffinio'r hyn a olygwn wrth fwlio, gan roddi digon o gyfleoedd i'r disgyblion i drafod, i chwarae rôl ac i sylweddoli beth yw'r canlyniadau posibl.

### <u>Prif Egwyddorion a Gwerthoedd</u>

*"Ceir y prif egwyddorion yng 'Nghytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn. Gellir ystyried y gwerthoedd a'r credoau sy'n sylfaen i'r polisi yng nghyd-destun y datganiadau isod:*

- *Mae pob math o fwlio yn annerbyniol, waeth sut mae'n cael ei gyflawni na pha esgusodion a gynigir i gyfiawnhau'r ymddygiad;*
- *Mae pob plentyn/person ifanc yn haeddu derbyn eu haddysg heb sarhad, gorthrwm na chamdriniaeth. Mae gan bob unigolyn sy'n rhan o'r ysgol hon gyfrifoldeb i weithredu i ofalu am ei gilydd;*
- *Mae'r ysgol yn cydnabod yr effaith andwyol ar ddisgyblion sy'n dioddef bwlio a bydd yn gweithio'n galed i leihau'r risg;*
- *Mae'r ysgol yn cydnabod fod rhaid cymryd camau i ymdrin â bwlio rhywiol, hiliol a homoffonig neu unrhyw fwlio arall wedi'i seilio ar wahaniaeth;*
- *Bydd dioddefwyr bwlio yn cael eu trin mewn modd cefnogol a rhaid sicrhau y cynigir gofal ar ôl dioddef bwlio;*
- *Bydd y polisi hwn yn berthnasol i'r holl ddisgyblion, p'un ai ydynt ar gofrestr yr ysgol ar sail barhaol neu dros dro.*

**<u>Beth yw bwlio</u>?**

Mae bwlio yn boeni bwriadol neu yn weithred ymosodol sy'n peri poen i rywun arall. Gall gael ei achosi gan blentyn unigol neu grŵp . Gall y boen fod yn gorfforol neu yn seicolegol.

Y mae'n bwysig addysgu'r plant am y gwahanol fathau o fwlio:

(a) Bwlio corfforol.

(b) Bwlio emosiynol – bygwth, codi ofn, galw enwau, bychanu, difrio, anwybyddu, gorfodi i roi etc.

**<u>Gweithio gyda'n Gilydd: Rhannu'r Cyfrifoldeb</u>**

Mae camau ymarferol i rieni, disgyblion, llywodraethwyr, athrawon a staff cefnogi eu dilyn, fel y nodir isod:

**Rhaid i rieni:**

- Gysylltu â'r ysgol os ydych yn ymwybodol o neu'n amau fod bwlio'n digwydd;
- Annog eich plant i BEIDIO ag ymddwyn yn ymosodol tuag at ei gilydd;
- Gefnogi'r ysgol os gweithredir camau pellach.

**Rhaid i ddisgyblion:**

- Ddweud wrth rywun ac ymddiried yn y staff i weithredu ar eu rhan;
- Fod yn ymwybodol o'r gwobrau a'r cosbau a ddefnyddir yn yr ysgol;
- Beidio â sefyll i'r naill ochr a gwneud dim neu chwerthin pan mae bwlio'n digwydd;
- Ceisio bod yn gymwynasgar a charedig tuag at bobl eraill bob amser;
- Derbyn cosb os canfyddir eu bod yn bwlio.

**Rhaid i Lywodraethwyr**:

- Wybod am a deall y polisi;
- Cefnogi'r staff wrth weithredu'r polisi;
- Cyflawni rôl weithredol wrth adolygu a chynnal y polisi.

**Rhaid i athrawon a staff cefnogi/atodol:**

- Fod yn barod i wneud amser a chreu cyfleoedd i wrando ar blant a'u cymryd o ddifri' e.e. Amser Cylch;
- Cadw llygad am ymddygiad bwlio posibl a bod yn ymwybodol o unrhyw brif fannau bwlio;
- Cynnwys addysgu am ymddygiad cadarnhaol ymhob agwedd o'r cwricwlwm;
- Gweithredu'r polisi ysgol gyfan o ran gwobrau a chosbau;
- Sicrhau bod y trefniadau adrodd am achlysuron bwlio yn glir;
- Annog a hybu yr awydd mewn plant i ofalu am ei gilydd
- Osod esiampl dda i'r plant trwy barchu plant ac oedolion gan sicrhau fod ethos yn yr ysgol lle mae cydweithio a gofalu yn bwysig
- Drafod achosion o fwlio gyda'r sawl sy'n cael ei fwlio a'r sawl sydd wedi cael ei gyhuddo o fwlio er mwyn cael darlun clir o'r sefyllfa a chlywed y ddau safbwynt
- Ddatblygu hunan hyder plentyn os yw ef/hi yn debygol o fod yn cael ei fwlio
- Ddatblygu hunan hyder plentyn sy'n bwlio hefyd a'i ddysgu i gydweithio ag eraill – mae canmoliaeth gan oedolion am ymddygiad addas gan blant fel hyn yn bwysig
- Gydweithredu gyda'r rhieni

**Arwyddion o fwlio**

1. Plentyn yn troi'n fewnblyg.
2. Plentyn yn newid cymeriad.
3. Olion camdrin corfforol.
4. Amharodwydd i ddod i'r ysgol.
5. Amharodrwydd i fynd allan i chwarae.
6. Safon gwaith yn dirwio.

**Sicrwydd i'r un sydd yn cael ei f/bwlio**

1. Pardorwydd aelod o'r staff i wrando ar gwyn.
2. Sicrwydd o gyfrinachedd: e.e. gweld athro amser chwarae, gofyn i riant ffonio'r ysgol, pasio nodyn ysgrifenedig i aelod o'r staff etc.
3. Gweithredu mewn cydweithrediad a'r plentyn.
4. Monitro'r canlyniadau dros gyfnod o amser.
5. Caniatau i eraill ddod â'r mater gerbron aelod o'r staff.

**Ymdrin â'r un sydd yn bwlio**

1. Rhoi cyfle teg iddo/iddi i ddweud ei ran/rhan.
2. Egluro'r canlyniadau posibl a'r gosb.
3. Rhoi cosb iddo/iddi yn ôl canllawiau'r ysgol. ****Gweler 'Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth' yr ysgol****
4. Pwysleisio mai <u>un cynnig</u> yn unig sydd iddo/iddi cyn gosod peirianwaith ymateb i fwlio i weithio.

**Y drefn ar gyfer cwynion**

1. Rhaid i bob cwyn gael ei chyfeirio at yr athro/athrawes dosbarth neu'r Pennaeth.

2. Cofnodir pob cwyn a chedwir cofnod o'r drafodaeth efo'r plant a/neu'r rhieni.

3. Rhoddir pob cefnogaeth posib i bawb sydd ynghlwm â'r sefyllfa.

4. Pan fydd prawf a thystiolaeth digonol o fwlio cysylltir â rhieni y sawl sy'n bwlio a cheisio eu chefnogaeth.

5. Trafodir unrhyw fater difrifol sy'n achosi pryder gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol Ysgol, Seicolegydd y sir a Chadeirydd y Llywodraethwyr / Llywodraethwyr.

6. Os yw'r bwlio yn dal i fynd ymlaen yna ystyrir gweithredu canllawiau diarddel disgybl yn unol a Chanllawiau Cyngor Sir Ddinbych e.e. gwahardd – tymor byr, amhenodol neu barhaol. Y pennaeth a'r llywodraethwyr yn unig gaiff wneud hyn. Mae bwlio cyson, ymladd, ymddygiad hiliol ac amaharch difrifol tuag at ddisgyblion ac/neu athrawon yn enghreifftiau o ymddygiad sy'n arwain at waharddiad.

Trafodwyd a chytunwyd ar y polisi yma gyda'r Cyngor Ysgol ac mewn Cyfarfod Staff

**27 Tachwedd 2025**

Cyflwynwyd a derbyniwyd y polisi gan y Cyngor Ysgol a'r Corff Llywodraethol:

Dyddiad: __27.11.25_____ Arwyddwyd Pennaeth : ____*M L Edwards*_______

Dyddiad: __27.11.25_____ Arwyddwyd Cadeirydd: ____*M Pierce*__________

# BWLIO

NID YDYM YN DERBYN UNRHYW FATH O FWLIO YN YSGOL PANT PASTYNOG!

**PLANT**

Beth ydy BWLIO?

- Bwli yw unigolyn sy'n gwneud bywyd yn anodd i eraill drwy bigo arnynt yn fwriadol yn ddi-reswm
- Dydy bwlio ddim yn digwydd unwaith yn unig ond llawer o weithiau
- Gall fod yn daro, cicio, tynnu gwallt a phethau eraill sy'n brifo'r corff
- Gall fod yn creu straeon, galw enwau neu bygwth sy'n eich brifo y tu mewn ac yn gwneud i chi ofni. Mae bwlio yn gas.
- Dweud pethau cas sydd wedi ei seilio ar sail hil, rhyw neu anabledd.

**Beth fedrwch chi ei wneud?**

1. Rydych i ddweud wrth unrhyw aelod o'r Staff yn syth.
2. Peidiwch â bod ag ofn bod yn wahanol. Mae pawb yn ein hysgol ni yn arbennig.
3. Ceisiwch beidio cymeryd sylw o bobl yn galw enwau arnoch - dywedwch wrth aelod o'r staff.
4. Peidiwch â dangos eich bod ag ofn.
5. Os oes rhywun yn pigo arnoch chi gwaeddwch yn uchel i dynnu sylw pawb at y sefyllfa - RHAID DWEUD.
6. Peidiwch byth ag ochri gyda bwli – sefwch yn gadarn wrth ochr yr un sy'n cael ei b/fwlio.
7. Os ydach chi yn gwybod bod rhywun arall yn cael ei bwlio dywedwch wrth aelod o'r Staff.
8. Mae cyfle ichi rannu eich teimladau yn ystod Cylch amser/Cylch gwir- cofiwch wneud.
9. Bydd y Staff yn rhannu unrhyw fater o fwlio gyda rhieni'r bwli a gyda rhieni'r plentyn sydd wedi cael ei fwlio.

**STAFF**

1. Nid ydym yn derbyn bwlio mewn unrhyw ffurf ac mae'n bwysig bod pawb yn yr ysgol yn cyd-weithio i wneud yn siŵr nad yw hyn yn digwydd.
2. Rydym yn trafod bwlio yn y dosbarth, yn ystod gwasanaethau ysgol a hefyd yn ystod Amser Cylch.
3. Rydym am geisio annog y plant i helpu'r rhai sy'n bwlio i ddod yn rhan o'r grŵp a deall pa mor greulon y maent wedi bod.
4. Os oes bwlio yn digwydd yna rhaid siarad gyda'r bwli a'r dioddefwr.
5. Rydym yn trafod atebion neu gosb gyda'r plant a'i rhieni.

MAE'N BWYSIG EIN BOD YN AGORED AC YN TRAFOD EIN TEIMLADAU